Cefnogaeth Gorfforaethol
Corporate Support
Pennaeth Adran / *Head of Department* – Geraint Owen

Gofynnwch am/*Ask for*: **Emma Davies**
☎ (01286) 679705 Ein Cyf / *Our Ref*:
(01286) 671072 Eich Cyf / *Your Ref*:
E-bost / E-mail**:** **emmadavies@gwynedd.gov.uk**

8fed Mai 2015

Annwyl Clerc,

Fel rhan o Rhan 1 Ymarferiad Ymgysylltu Her Gwynedd, rhwng Medi a Thachwedd 2015, bu i Gyngor Gwynedd gynnal cyfres o sesiynau a chyfarfodydd cyhoeddus er mwyn:

- esbonio graddfa'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor,
- sefydlu pa wasanaethau ac adnoddau lleol mae pobl yn ei werthfawrogi fwyaf,
- cychwyn ar y gwaith o sefydlu os oes ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau yn lleol er mwyn osgoi'r angen i dorri gwasanaethau ble'n bosib.

Mae canlyniadau Rhan 1 o'r ymarferiad Her Gwynedd ar gael drwy ymweld â gwefan www.gwynedd.gov.uk/HerGwynedd.

Rydym bellach yn paratoi ar gyfer Rhan 2 o'r ymarferiad, ond cyn hynny rydym yn awyddus i gwrdd gyda chynghorau cymuned, tref a dinas ar draws y sir er mwyn:

- rhannu gwybodaeth am ganlyniadau Rhan 1
- darparu diweddariad o'r sefyllfa ariannol erbyn hyn
- cychwyn trafodaeth ar opsiynau amgen posib o gynnal rhai gwasanaethau lleol
- trafod pa gefnogaeth sydd ar gael i gymunedau ddatblygu cynigion amgen posib ar gyfer rhedeg gwasanaethau penodol yn lleol.

Mae cyfres o gyfarfodydd wedi ei drefnu ar draws Gwynedd a byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu gydag aelodau o'ch cyngor cymuned neu dref, a'u hannog i fynychu a bod yn rhan o'r drafodaeth. Mae'r tabl isod yn nodi'r dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r cyfarfodydd.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

Cefnogaeth Gorfforaethol
Corporate Support
Pennaeth Adran / *Head of Department* – Geraint Owen

Dyddiad	**Amser**	**Ardal**	**LLeoliad**
02/06/2015	18:00-20:00	Tywyn	Ysgol Uwchradd
08/06/2015	18:00-20:00	Dolgellau	Siambr , Swyddfeydd y Cyngor, Penarlag
09/06/2015	18:00-20:00	Y Bala	Neuadd Buddug, Y Bala
10/06/2015	18:00-20:00	Blaenau Ffestiniog	Ysgol y Moelwyn
11/06/2015	18:00-20:00	Pwllheli	Clwb Rygbi Pwllheli, Efailnewydd
02/07/2015	18:00-20:00	Caernarfon	Siambr Arfon , Swyddfeydd y Cyngor, Penrallt
08/07/2015	18:00-20:00	Porthmadog	Ysgol Eifionydd, Porthmadog
13/07/2015	18:00-20:00	Bangor	Clwb Pêl Droed, Bangor

Er mwyn cadarnhau eu presenoldeb, gwerthfawrogwn pe byddech yn cysylltu â mi gyda'r manylion isod cyn yr 28ain o Fai:

- enwau'r rhai fydd yn mynychu'r cyfarfod
- cadarnhad pa ddyddiad sydd yn gyfleus
- gwybodaeth am anghenion penodol ar gyfer y cyfarfod, er enghraifft defnydd lŵp clywed.

Pe bai gennych unrhyw ymholiad pellach am y cyfarfodydd yna cysylltwch â Emma Davies ar 01286 679 705 neu ebost emmadavies@gwynedd.gov.uk.

Yn gywir

Emma Davies
Rheolwr Prosiect